Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cyfres y Gyllideb 2: y Gyllideb Ddrafft

Hysbysiad Hwylus

Awst 2012

## Trosolwg ar broses y gyllideb ddrafft

Y gyllideb ddrafft yw'r cam cyntaf ym mhroses y gyllideb[1] y darperir ar ei chyfer yn Rheolau Sefydlog y Cynulliad Cenedlaethol.[2]

Yn ôl darpariaeth y Rheolau Sefydlog (RhS):

- O leiaf bythefnos cyn toriad yr haf bob blwyddyn, rhaid i'r Gweinidog sy'n gyfrifol am fusnes y Llywodraeth hysbysu'r Pwyllgor Busnes o'r dyddiad y bydd y gyllideb ddrafft yn cael ei gosod, a'r dyddiad olaf y bydd y cynnig cyllideb blynyddol[3] yn cael ei gyflwyno. (RhS 20.2 i 20.3)
- Yna, bydd y Pwyllgor Busnes yn cyhoeddi amserlen ar gyfer ystyried y gyllideb ddrafft. Rhaid i'r amserlen gynnwys o leiaf pump wythnos i'r 'pwyllgor cyfrifol'[4] gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft. (RhS 20.4 i 20.6)
- Rhaid i un o Weinidogion Cymru osod cyllideb ddrafft gerbron y Cynulliad (yn unol â'r dyddiad a bennwyd). Rhaid i'r gyllideb nodi manylion am adnoddau ac arian parod y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol, lle bo'n bosibl. (RhS 20.7)
- Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r gyllideb ddrafft gael ei gosod dylai un o Weinidogion Cymru wneud datganiad yn y Cyfarfod Llawn i gyflwyno'r gyllideb ddrafft. (RhS 20.8)
- Ni chaniateir gwneud cynnig yn y Cyfarfod Llawn mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft nes i'r dyddiad y mae disgwyl i'r pwyllgor cyfrifol gyflwyno adroddiad ar y gyllideb ddrafft, fynd heibio. (RhS 20.9)
- Caiff unrhyw bwyllgor, ac eithrio'r pwyllgor cyfrifol, ystyried cyllideb ddrafft y Llywodraeth a chyflwyno adroddiad arni i'r pwyllgor cyfrifol. (RhS 20.10)
- Caiff adroddiad y pwyllgor cyfrifol argymell newidiadau i gynigion y Llywodraeth ar yr amod na fyddai newidiadau o'r fath yn newid cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft. (RhS 20.11)
- Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried cynnig a gyflwynwyd gan un o Weinidogion Cymru fod y Cynulliad yn nodi

[1] Roedd dull gweithredu'r broses gyllideb flaenorol (o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998) yn darparu cyfnod ychwanegol ar gyfer blaenoriaethau'r Pwyllgorau. Er nad yw'r cyfnod hwn yn bodoli'n ffurfiol bellach o dan y broses newydd, y bwriad yw y bydd proses y pwyllgorau craffu o archwilio cyllidebau'r adrannau, eu gwariant a'u perfformiad o'i chymharu â'r polisïau yn parhau drwy gydol y flwyddyn.

[2] ***Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru***, Mai 2011. Mae Rheol Sefydlog 20 yn ymwneud â gweithdrefnau cyllid ac mae Rheolau Sefydlog 20.2 i 20.12 yn darparu ar gyfer y gyllideb ddrafft. [fel ar 19 Ebrill 2011]

[3] Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch y cynnig cyllideb blynyddol yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfres y Gyllideb 3: Cynnig Cyllideb Blynyddol (Y Gyllideb Derfynol).**

[4] Fel y'i nodir yn Rheol Sefydlog 19, rhaid i'r Pwyllgor Busnes bennu 'pwyllgor cyfrifol' er mwyn ystyried a chyflwyno adroddiadau am faterion sy'n ymwneud â'r defnydd o adnoddau neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru.

cyllideb ddrafft y Llywodraeth. Gellir argymell newidiadau i gynigion o'r fath ar yr amod na fyddai'r newidiadau yn newid cyfansymiau'r adnoddau neu'r arian parod a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft. (RhS 20.12)

## Gwybodaeth yn y gyllideb ddrafft

Fel y'i nodir uchod, mae RhS 20.7 yn darparu fod yn rhaid i'r gyllideb ddrafft nodi manylion am adnoddau ac arian parod y mae'r Llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol a darpar symiau ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Yn fwy penodol, dylai nodi:

- Y defnydd o adnoddau gan Lywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Archwilydd Cyffredinol a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus.[5]
- Pa incwm y dylai'r sefydliadau hynny ei gadw (yn hytrach na'i dalu i Gronfa Gyfunol Cymru).
- Faint o arian parod sydd ar gael i'r sefydliadau hynny o Gronfa Gyfunol Cymru.

Yn ystod y blynyddoedd diweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi gwella faint o wybodaeth a gaiff ei darparu yn nogfennaeth y gyllideb ddrafft. Yn ogystal â chynigion y gyllideb ddrafft a'r tablau ar ddyraniadau'r gyllideb, maent hefyd wedi cynnwys dogfen naratif sy'n esbonio dyraniadau manwl i adrannau'r Llywodraeth ymhellach ac yn esbonio trosglwyddo a symud cronfeydd wrth gefn a dyraniadau eraill.[6]

## Deall cyfansymiau rheoli cyllidebau

Mae dyraniadau cyllideb Llywodraeth Cymru yn cael eu rhannu i lefelau pellach o fanylder:

- **Prif grwpiau gwariant** – y rhain yw'r haen uchaf ac maent yn cyfateb i bortffolios neu adrannau Gweinidogion.
- **Meysydd rhaglenni gwariant** – daw'r rhain o fewn y prif grwpiau gwariant ac maent yn rhoi'r haen nesaf o fanylion ac yn diffinio sut caiff cyllidebau eu dyrannu yn unol â'r mathau o wasanaeth a ddarperir.
- **Camau gweithredu**[7] - daw'r rhain o fewn y meysydd rhaglenni gwariant ac maent yn rhoi'r dyraniadau ar eu ffurf fanylaf yn nogfennau'r gyllideb ac yn nodi meysydd polisi neu fentrau. Sylwch nad yw'r camau gweithredu yn rhoi manylion dyraniadau ar lefel polisi neu raglen benodol.

Mae dogfen naratif y gyllideb yn gyffredinol yn rhoi gwybodaeth ar lefel y meysydd rhaglenni gwariant, ond mae'r tablau ar ddyraniadau'r gyllideb yn rhoi manylion am y dyraniadau ar lefel y camau gweithredu.

Mae'r gyllideb, yn y strwythur hwn, yn cael ei rhannu ymellach, a hynny i gyfansymiau rheoli Trysorlys EM, sef **terfynau gwariant adrannol**[8] a **gwariant a reolir yn flynyddol**[9]. O dan y cyfansymiau rheoli hyn, caiff dyraniadau eu rhannu eto yn **refeniw** a **chyfalaf**

---

[5] Mae Rheolau Sefydlog 20.13 i 20.20 yn darparu'r trefniadau i'r pwyllgor cyfrifol osod a chraffu ar gyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad. Mae Rheolau Sefydlog 20.21 i 20.22 yn nodi'r trefniadau i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus osod a chraffu ar amcangyfrifon incwm a gwariant yr Archwilydd Cyffredinol. Mae Rheolau Sefydlog 20.23 i 20.24 yn darparu'r trefniadau i'r pwyllgor cyfrifol osod a chraffu ar amcangyfrifon incwm a gwariant yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Ar ôl i'r broses o graffu ar y ffigurau hyn ddod i ben, mae'n rhaid cynnwys y ffigurau hyn yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

[6] Gellir gweld dogfennaeth mewn perthynas â'r gyllideb ddrafft ar gyfer cyllideb ddiweddaraf 2012-13 ar wefan Llywodraeth Cymru: ***Cyllideb Ddrafft 2012-13***, (Hydref 2011). [fel ar 1 Gorffennaf 2012]

[7] Yn y gorffennol, cyfeiriwyd at lefel y camau gweithredu fel **llinellau gwariant yn y gyllideb**. Felly, cyfeirir atynt weithiau fel llinellau gwariant yn y gyllideb.

[8] **Terfynau gwariant adrannol** – cânt eu pennu fel rheol am dair blynedd fel rhan o broses adolygu gwariant Llywodraeth y DU; hwn yw terfyn cyllidebol Llywodraeth Cymru ar gyfer nifer benodol o flynyddoedd. Caiff rhan fwyaf y swm hwn ei adael heb ei neilltuo (y gyllideb wedi'i chlustnodi,

Yn gyffredinol, mae'r tablau ar ddyraniadau'r gyllideb yn cynnwys crynodebau mewn tablau ar gyfer pob prif grŵp gwariant, wedi'u rhannu yn ôl y terfynau gwariant adrannol a'r gwariant a reolir yn flynyddol, a nodir y refeniw a'r cyfalaf ym mhob un o'r rhain. Mae yno hefyd dablau manwl iawn ar gyfer pob prif grŵp gwariant, sy'n amlinellu'r cyfansymiau rheoli (refeniw a chyfalaf y terfynau gwariant adrannol, a'r gwariant a reolir yn flynyddol) hyd at lefel y camau gweithredu.

## Cymharu tablau'r gyllideb ar gyfer y gyllideb ddrafft

Gellir gwneud nifer o gymariaethau wrth ddadansoddi'r gyllideb ddrafft. Mae Tabl 1 yn dangos rhai o'r cymariaethau hyn. Ni fwriedir iddynt fod yn rhagnodol. Mae'r tabl yn awgrymu prif gymariaethau y gellid eu defnyddio fel man cychwyn defnyddiol wrth graffu ar y gyllideb ddrafft.

Mae Tabl 1 yn darparu gwybodaeth sy'n dod o dablau dyraniadau'r gyllideb ddrafft ddiweddaraf ar gyfer 2012-13,[10] ac yn dangos y dyraniadau refeniw o fewn prif grŵp gwariant iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a phlant. Caiff y cyfrifiadau a ddefnyddiwyd i wneud y cymariaethau hyn eu hesbonio yn y labeli ar y ffigurau.

- Mae **Colofn A** yn dangos teitlau'r meysydd rhaglenni gwariant/camau gweithredu o fewn y prif grŵp gwariant.
- Mae **Colofn B** yn dangos y gwaelodlin ar gyfer 2012-13.[11]
- Mae **Colofn C** yn dangos y dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13 fel y'u cyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft atodol gyntaf ar gyfer 2011-12.
- Mae **Colofn D** yn dangos y newid arfaethedig mewn dyraniadau dangosol ar gyfer 2012-13 a nodir fel swm ariannol +/- fel y cyhoeddwyd yng nghyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae **Colofn E** yn dangos y dyraniadau arfaethedig (cyllideb ddrafft) ar gyfer 2012-13.
- Mae **Colofn F** yn dangos y dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-14 fel y'u cyhoeddwyd yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2011-12.
- Mae **Colofn G** yn dangos y newid arfaethedig mewn dyraniadau dangosol ar gyfer 2013-14 a nodir fel swm ariannol +/- fel y cyhoeddwyd yng nghyllideb ddrafft 2012-13.
- Mae **Colofn H** yn dangos y dyraniad dangosol ar gyfer 2013-14 fel y'u cyhoeddwyd yn y gyllideb atodol ar gyfer 2012-13.
- Mae **Colofn I** yn dangos y dyryniadau dangosol ar gyfer 2014-15 fel y'u cyhoeddwyd yn y gyllideb atodol ar gyfer 2011-12.

---

neu'r gyllideb bloc) a rhoddir rhyddid llwyr i Lywodraeth Cymru weithredu ar sail ei flaenoriaethau gwariant. Caiff newidiadau yn y ddarpariaeth ar gyfer gwariant o'r fath eu rheoli gan fformiwla Barnett. Gellir cael gwybodaeth bellach am derfynau gwariant adrannol a chyfansymiau rheoli Trysorlys EM yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**.

[9] **Gwariant a reolir yn flynyddol** – gwariant a bennir yn ôl y galw yw hwn yn gyffredinol, felly ni all y ddarpariaeth yn rhesymol fod yn destun terfynau dros nifer benodol o flynyddoedd, (er enghraifft, benthyciadau i fyfyrwyr). Caiff hwn ei adolygu a'i bennu ddwywaith y flwyddyn gan Drysorlys EM. Dim ond i'r diben y'i neilltuwyd y mae modd dyrannu gwariant a reolir yn flynyddol; felly nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw ryddid i benderfynu sut y caiff ei ddyrannu. Mae modd cael rhagor o wariant a reolir yn flynyddol gan Drysorlys EM yn ôl yr angen, ond rhaid dychwelyd unrhyw arian sydd heb ei wario. Gellir cael rhagor o wybdoaeth am derfynau gwariant adrannol a chyfansymiau rheoli Trysorlys EM yn Hysbysiad Hwylus y Gwasanaeth Ymchwil: **Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**.

[10] Llywodraeth Cymru, ***Cyllideb ddrafft 2012-13 - dyraniadau gwariant**,* Hydref 2011 [fel ar 13 Gorffennaf 2012]

[11] Mae ffigurau'r llinell sylfaen ar gyfer 2011-12 sy'n ymddangos yn y gyllideb ddrafft yn dod o **Gyllideb Atodol 2011-12** (Mehefin 2011) [fel ar 16 Gorffennaf 2012]

- Mae **Colofn J** yn dangos y newid arfaethedig yn y dyraniadau dangosol ar gyfer 2014-15 a nodir fel swm ariannol +/- fel y nodwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13.
- Mae **Colofn K** yn dangos y dyraniadau dangosol ar gyfer 2014-15 fel y cyhoeddwyd yn y gyllideb ddrafft ar gyfer 2012-13.

**PRIF GRŴP GWARIANT (MEG) IECHYD, GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A PHLANT**

**CYLLIDEB REFENIW - TERFYN GWARIANT ADRANNOL** — £ miloedd

| Camau gweithredu | 2011-12 Cyllideb atodol Mehefin 2011 | 2012-13 Cynlluniau Dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011 | 2012-13 Newidiadau | 2012-13 Cynlluniau newydd cyllideb ddrafft | 2013-14 Cynlluniau dangosol Cyllideb Atodol Mehefin 2011 | 2013-14 Newidiadau | 2013-14 Cynlluniau newydd cyllideb ddrafft | 2014-15 Cynlluniau Dangosol Cyllideb atodol Mehefin 2011 | 2014-15 Newidiadau | 2014-15 Cynlluniau newydd cyllideb ddrafft |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd | 4,964,545 | 4,923,046 | 138,734 | 5,061,780 | 4,923,046 | 140,034 | 5,063,080 | 4,923,046 | 130,422 | 5,053,468 |
| Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu | [illegible] | 462,958 | -32,776 | 430,182 | 476,726 | -32,776 | 443,950 | 476,726 | -32,776 | 443,950 |
| **Cyfanswm Cyflenwi'r GIG** | [illegible] | **5,386,004** | **105,958** | **5,491,962** | **5,399,772** | **107,258** | **5,507,030** | **5,399,772** | **97,646** | **5,497,418** |
| Cefnogi Addysg a Hyforddiant yng Ngweithlu'r GIG | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 188,826 | 188,826 | | 188,826 | 188,826 | | 188,826 |
| Cefnogi Polisiau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 9,520 | 16,331 | -6,811 | 9,520 | 16,331 | -6,811 | 9,520 |
| Cymorth Hosbis | 7,028 | 7,028 | | 7,028 | 7,028 | | 7,028 | 7,028 | | 7,028 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Canolog Iechyd** | **212,185** | **212,185** | [illegible] | **205,374** | **212,185** | **-6,811** | **205,374** | **212,185** | **-6,811** | **205,374** |
| Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus | 63,785 | 63,785 | [illegible] | 67,146 | 63,785 | 3,361 | 67,146 | 63,785 | 3,361 | 67,146 |
| Yr Asiantaeth Safonau Bwyd | 3,651 | 3,651 | [illegible] | 3,442 | 3,651 | -209 | 3,442 | 3,651 | -209 | 3,442 |
| Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol | 11,720 | 11,720 | | [illegible] | 11,720 | | 11,720 | 11,720 | | 11,720 |
| Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach | 15,219 | 15,218 | 541 | [illegible] | 15,218 | 541 | 15,759 | 15,218 | 541 | 15,759 |
| Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth | 11,497 | 11,497 | -1,736 | [illegible] | 11,497 | -1,736 | 9,761 | 11,497 | -1,736 | 9,761 |
| Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau Iechyd | 5,921 | 5,921 | | 5,921 | 5,921 | | 5,921 | 5,921 | | 5,921 |
| Datblygu a Gweithredu Ymchwil er budd Cleifion a'r Cyhoedd | 43,799 | 43,799 | | 43,799 | [illegible] | | 43,799 | 43,799 | | 43,799 |
| **Cyfanswm Iechyd y Cyhoedd ac Atal Problemau** | **155,592** | **155,591** | **1,957** | **157,548** | [illegible] | **1,957** | **157,548** | **155,591** | **1,957** | **157,548** |
| Awdurdodau Cymdeithasol i Blant | 12,308 | 12,308 | -4,297 | 8,011 | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 12,308 | -4,297 | 8,011 |
| Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd | 94,294 | 96,341 | 6,340 | 102,681 | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 99,398 | 31,340 | 130,738 |
| Oedolion a Phobl Hŷn | 51,484 | 51,484 | -7,746 | 43,738 | 51,484 | [illegible] | [illegible] | 51,484 | -7,746 | 43,738 |
| Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol | 18,747 | 18,747 | -2,961 | 15,786 | 18,747 | -2,961 | [illegible] | 18,747 | -2,961 | 15,786 |
| Cyngor Gofal Cymru | 10,141 | 10,141 | | 10,141 | 10,141 | | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 10,141 |
| Comisiynydd Pobl Hŷn | 1,747 | 1,747 | | 1,747 | 1,747 | | [illegible] | [illegible] | [illegible] | 1,747 |
| **Cyfanswm Gwasanethau Cymdeithasol** | **188,721** | **190,768** | **-8,664** | **182,104** | **193,825** | **6,336** | [illegible] | [illegible] | [illegible] | **210,161** |
| Darparu Rhaglenni CAFCASS | 10,138 | 9,635 | | 9,635 | 9,167 | | 9,167 | [illegible] | [illegible] | 9,167 |
| **Cyfanswm CAFCASS Cymru** | **10,138** | **9,635** | **0** | **9,635** | **9,167** | **0** | **9,167** | [illegible] | **0** | **9,167** |
| | | | | | | | | | | |
| **Cyfanswm Refeniw - Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** | **5,974,139** | **5,954,183** | **92,440** | **6,046,623** | **5,970,540** | **108,740** | **6,079,280** | **5,970,540** | [illegible] | [illegible] |

A — Yn dangos camau a Meysydd Rhaglenni Gwariant o fewn y MEG

B — Gwaelodlin 2011-12

C — Dyryniadau dangosol 2012-13 fel y'u cynigiwyd yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2011-12

D — Newid arfaethedig i ddyraniadau dangosol 2012-13 (colofn E -C)

E — Dyryniadau 2012-13 a gynigiwyd yn y gyllideb ddrafft

F — Dyryniadau dangosol 2013-14 fel y'u cynigiwyd yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2011-12

G — Newid arfaethedig i ddyraniadau dangosol 2013-14 (colofn H -F)

H — Dyraniadau dangosol arfaethedig ar gyfer 2013-14

I — Dyryniadau dangosol 2014-15 fel y'u cynigiwyd yn y gyllideb atodol gyntaf ar gyfer 2011-12

J — Newid arfaethedig yn y dyryniadau dangosol ar gyfer 2014-15 (colofn K - I)

K — Dyryniadau dangosol arfaethedig ar gyfer 2014-15

## Awgrymiadau ar gyfer craffu ar y gyllideb ddrafft

Mae'r adran hon yn cynnwys rhai awgrymiadau a allai fod yn ddefnyddiol i Aelodau a Phwyllgorau wrth iddynt graffu ar gynigion y gyllideb ddrafft. Nid yw'r rhain yn rhagnodol, ond maent wedi'u llunio i gynorthwyo'r gwaith o ystyried briffiau a chwestiynau wrth graffu ar y gyllideb a chyllido.

### Sicrhau bod y gyllideb yn cyd-fynd ag ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu:

- Sut y darperir ar gyfer yr ymrwymiadau yn y rhaglen lywodraethu yn nyryniadau'r gyllideb a sut y cânt eu huno â'r camau perthnasol a nodir yn nogfennaeth y gyllideb?
- Pa waith sydd wedi cael ei wneud i ailflaenoriaethu gwariant o fewn portffolios i sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn well â'r rhaglen lywodraethu? Sut y bydd hyn yn creu cysylltiad gwell rhwng strwthyrau'r gyllideb ac ymrwymiadau datganedig er mwyn sicrhau y gellir cysylltu'r canlyniadau â defnydd neu adnoddau?
- A yw'r modd y dyrennir adnoddau wedi'i newid i adlewyrchu'r canlyniad mewn perthynas ag unrhyw un o'r ymrwymiadau hyn, fel y nodwyd  yn yr adroddiad cynnydd ar y rhaglen lywodraethu ac a allwch chi gynnig unrhyw enghreifftiau o hynny?
- Sut y caiff y gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu ei fesur/werthuso ar lefel adrannol a lefel Cymru gyfan? A fydd gwerthusiad o'r fath yn ystyried gwerth am arian?
- A oes gan y Gweinidog adnoddau digonol ar gael o fewn ei borffolio ar gyfer y flwyddyn ariannol er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau datganedig?
- A oes unrhyw feysydd eraill y mae'r Gweinidog yn pryderu yn eu cylch o ran argaeledd adnoddau a sut y gall hyn effeithio ar ei allu i gyflawni ymrwymiadau o fewn ei bortffolio?
- Mae gan Weinidogion mwy o hyblygrwydd o ran gwariant o ganlyniad i'r cynnig cyllidebol ar ddiwedd 2011 (h.y. gallant drosglwyddo o fewn/rhwng porffolios). Sut y mae'r hyblygrwydd hwn wedi cael ei ddefnyddio i reoli adnoddau'n gwell, yn enwedig o ran rheoli tanwariant i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau?

### Y gallu i newid

- Faint yw gwerth y gyllideb arfaethedig ar gyfer adran benodol/prif grwpiau gwariant fel cyfran o gyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru?
- Faint o'r gyllideb arfaethedig sy'n ymrwymedig, a faint ohoni felly sy'n ddewisol? (er mwyn cydnabod y gallu i ailneilltuo rhwng rhaglenni).

### Materion trawsbynciol

- Sut y mae dyraniadau'r gyllideb ddrafft wedi dangos bod effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth arfaethedig wedi cael ei ystyried?
- Sut y mae unrhyw gyhoeddiadau mawr ar wariant neu ymrwymiadau cyllidebu penodol yn cyd-fynd â chamau gweithredu unigol yn y gyllideb ddrafft? A yw ymrwymiadau o'r fath yn cyfeirio at gyllid newydd, neu a ydynt yn deillio o ailflaenoriaethu neu ymrwymiadau mewn cyllidebau blaenorol? At ba gyfnod y mae'r ymrwymiadau ariannu hyn yn cyfeirio?

- Sut y mae materion fel cydraddoldeb a chynaliadwyedd wedi cael eu hystyried wrth wneud dyrianadau? A gafodd asesiadau effaith eu cynnal?

## Newidiadau o'r naill flwyddyn i'r llall

- O'i chymharu â chyllideb y llynedd (y gyllideb derfynol neu'r gyllideb atodol), a oes unrhyw gynydd neu ostyngiad sylweddol wedi bod mewn maes rhaglenni gwariant a chamau gweithredu?
- A yw'r adran wedi colli/ennill unrhyw gyfrifoldeb dros feysydd polisi neu ddarparu gwasanaethau ers y flwyddyn flaenorol?
- A oes unrhyw ailstrwythuro/ailflaenoriaethu wedi digwydd o fewn y prif grwpiau gwariant? Os felly, a oes cysoniad ar gael er mwyn gallu cymharu â'r blynyddoedd blaenorol?
- Gan gyfeirio'n ôl at y ffigurau alldro diweddaraf ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, a oes unrhyw danwariant/gorwariant mewn unrhyw un o'r meysydd rhaglenni gwariant/camau gweithredu? A yw'r pethau hyn wedi cael eu hystyried yn y cynigion cyllideb ddrafft?

# Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am agweddau ar y broses gyllidebol, cysylltwch â **Dr Eleanor Roy** (**Eleanor.Roy@cymru.gov.uk**) neu **Kerry Dearden** (**Kerry.Dearden@cymru.gov.uk**) yn y Gwasanaeth Ymchwil.

I gael rhagor o wybodaeth am y pynciau isod, cliciwch ar y linc.

- Llywodraeth Cymru, **Cyllideb 2012-13**
- Llywodraeth Cymru, **Cyllidebau blaenorol**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfres y Gyllideb 1: Ariannu Cyllideb Cymru: Fformiwla Barnett**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfres y Gyllideb 3: y Cynnig Cyllideb Blynyddol (y Gyllideb Derfynol)**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfres y Gyllideb 4: y Gyllideb Atodol**
- Y Gwasanaeth Ymchwil: **Cyfres y Gyllideb 5: Geirfa'r Gyllideb**

Ceir rhestr lawn o'r **hysbyiadau hwylus** yma.

Gellir gweld ein **hystod lawn o gyhoeddiadau** ar wefan y Cynulliad: **assemblywales.org/research**

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: **@YmchwilCCC**

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon i: **Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at **Research.Service@wales.gov.uk**

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau o'r cyhoedd.

**Ymholiad rhif: 12/1996**
**Author name: Kerry Dearden**